Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gwella Busnes

## 2014 - 2015

## RHAN 2

## Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd, Melanie Doel ........ 3

1. Cyflwyniad ........ 4

2. A ydym wedi gwireddu ein hamcanion yn 2014/2015? ........ 6

3. Casgliad ........ 13

## Atodiadau

........ 14

Atodiad 1 – Cynllun Gwella Busnes Rhan 1 2014-2015

Atodiad 2 – Argymhellion yr Astudiaeth Craffu Cludiant Cynaliadwy a'r Astudiaeth Craffu Gwydnwch Cymdeithasol (02/2014)

Atodiad 3 – Crynodeb Ariannol 2014-2015

Atodiad 4 – Dangosyddion Perfformiad Statudol 2014-2015

Atodiad 5 – Dangosyddion Perfformiad Cymharol Parciau Cenedlaethol Cymru 2014-2015

Atodiad 6 – Geirfa o Dermau

# Rhagair

Mae'r Cynllun Gwella Busnes hwn yn datgan amcanion gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn disgrifio pa mor dda yr ydym wedi'u gwireddu yn ystod 2014-2015. Yn ei hanfod, mae'r cynllun yn ein tywys ni o'n gweledigaeth i'n hymrwymiad, ac yn nodi ein bod yn parhau â'r dasg o addasu i bwysau ariannol digymar. Mae'r ddogfen hefyd yn disgrifio'n fanwl yr hyn y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei gyflawni yn 2014-2015 ac yn nodi ein hymrwymiad mesuradwy o dan bob pennawd. Rydym yn croesawu hyn fel cyfle i roi gwybod i bawb am ein bwriadau a'r ffordd y gellir asesu ein cyflawniadau; mae hefyd yn gyfle i amlinellu ein perfformiad trwy gydol y flwyddyn. Dyma'r offeryn y byddwn yn ei ddefnyddio i fesur ein perfformiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyhoedd mewn perthynas â'n dyletswyddau statudol fel Awdurdod Parc Cenedlaethol, ac unrhyw gamau gweithredu eraill yr ydym wedi'u gosod a chytuno â nhw. Eleni, bu'r rhaglen waith yn un heriol, ac fe'i gweithredwyd yn ddiwyd gan swyddogion, staff a gwirfoddolwyr mewn amgylchedd ariannol heriol tu hwnt. Er gwaethaf hyn, nid ydym wedi gwyro o gwbl oddi ar ein huchelgais ar gyfer Bannau Brycheiniog. Seiliwyd yr uchelgais honno ar ddealltwriaeth gyfoethog a dofn o'n hamgylchedd a'i anghenion, ei bobl a'u hanghenion, ac ar wybodaeth ddwys o'r ardal y mae ein staff, gwirfoddolwyr, trigolion ac ymwelwyr wedi'i meithrin dros nifer o flynyddoedd. Rwy'n falch o adrodd bod y cynllun hwn yn cyflwyno gwelliannau cadarn a sylweddol, a'n bod wedi rhagori ar y targedau disgwyliedig ymron ymhob maes. Ar hyd y ffordd, mae Aelodau'r Awdurdod wedi'u symbylu a'u calonogi'n fawr gan gefnogaeth ein cymunedau, a chan egni, brwdfrydedd a didwylledd ein partneriaethau, sydd wedi sbarduno llawer o'n gorchestion. Mae ein gwaith, yn fwy nag erioed o'r blaen, yn gofyn am gynghrair gref o bartneriaid parod ar lefel genedlaethol a lleol. Mae gofyn inni sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â nhw a bod yn benderfynol o gyflwyno buddion mesuradwy a phendant i'n hamgylchedd a'n pobl. Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ein cynnydd yn ystod 2014-2015, ac edrychwn ymlaen at gyflwyno datblygiadau pellach i'ch sylw yn y dyfodol.

Dymuniadau gorau,

Melanie Doel

Cadeirydd,

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Cyflwyniad

**1.1** Mae'n bleser gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyhoeddi Rhan 2 ei Gynllun Gwella Busnes (CGB) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Mae Rhan 1 yr adroddiad yn edrych ymlaen ac yn amlinellu blaenoriaethau gwella'r Awdurdod am y flwyddyn ariannol newydd. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014 ac mae i'w gweld yn Atodiad 1. Dylid darllen y ddau adroddiad ar y cyd fel un ddogfen.

**1.2** Mae'r Cynllun Gwella Busnes Rhan 2 yn edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol. Mae'n ystyried cynnydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn erbyn yr amcanion gwella a gafodd eu datgan yn CGB1. Mae'r adroddiad hefyd yn datgan dull yr Awdurdod o weithredu o ran cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol o dan Fesur Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru a'i ymrwymiad i welliant parhaus. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella Busnes Rhan 2 erbyn 31 Hydref fan bellaf bob blwyddyn.

**1.3** Mae'r Cynllun Gwella yn rhan o fframwaith cynllunio uchelgeisiol, sef Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, sy'n mapio datblygiadau yn y Parc dros y pymtheng mlynedd nesaf. Bydd ein profiadau yn parhau i lywio ein rhaglenni gwaith, ein cyllidebau a'n cynigion ariannu wrth inni ymdrechu i ragori ar ein targedau.

**1.4** Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cyflwyno cefndir ein holl ddogfennau strategol, ac fe'i lluniwyd trwy ymgynghori â rhanddeiliaid, perchenogion tir a chymunedau ledled y Parc. Yn 2011, aeth yr Awdurdod ati i gysoni ei Nodau Corfforedig a'i amcanion (a osododd y cyd-destun ar gyfer y Cynllun Gwella Busnes) â 6 thema'r Cynllun Rheoli. Dyma'r themâu:

| Themâu'r Cynllun Rheoli | |
|---|---|
| **Thema 1:** Rheoli Tirweddau'r Parc i Fanteisio i'r Eithaf ar Fuddion Cyhoeddus a Chadwraeth | Pwrpas 1af |
| **Thema 2:** Cadw a Gwella Bioamrywiaeth | |
| **Thema 3:** Darparu Cyfleoedd Mynediad a Hamdden Awyr Agored i Bawb | 2il Bwrpas |
| **Thema 4:** Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc | |
| **Thema 5:** Adeiladu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy | Dyletswydd |
| **Thema 6:** Datblygiad Economaidd Cynaliadwy | |

**1.5** Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ynghyd â lawrlwytho'r adroddiad hwn, o'n gwefan ar www.beacons-npa.gov.uk neu gallwch ofyn am gopi papur trwy ffonio 01874 620465 neu e-bostio IT@beacons-npa.gov.uk.

**1.6** Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad mewn perthynas â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn ar gael yma: http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/who-we-are/our-policies-and-procedures/welsh-language-scheme/monitoring-reports-for-the-welsh-language-scheme/

**1.7** Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol am y Cynllun Gwella neu os hoffech awgrymu meysydd gwaith lle mae angen inni wella, ysgrifennwch at Mr John Cook, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP neu anfonwch e-bost i improvements@beacons-npa.gov.uk.

# 1. A ydym wedi gwireddu ein hamcanion yn 2014/2015?

**2.1** Mae'r Cynllun Gwella Busnes Rhan 1 2014/2015 (CGB1) yn datgan sut yr aethom ati i benderfynu ar ein Hamcanion Gwella ar gyfer y flwyddyn. Rhestrir y rhain isod:

- **Blaenoriaeth Gwella 1** (Thema 1 yn y Cynllun Rheoli – Rheoli tirweddau'r parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth):
    - *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd **amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol** y Parc yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo*
- **Blaenoriaeth Gwella 2** (Thema 2 yn y Cynllun Rheoli – Cadw a Gwella Bioamrywiaeth):
    - *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd **Bioamrywiaeth** yn cael ei gwarchod a'i gwella*
- **Blaenoriaeth Gwella 3** (Thema 5 yn y Cynllun Rheoli: Adeiladu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy):
    - *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd **byw'n gynaliadwy, gwydnwch cymdeithasol a balchder cymunedol** yn cael eu galluogi*
- **Blaenoriaeth Gwella 4** (Thema 6 yn y Cynllun Rheoli: Datblygu Economaidd Cynaliadwy):
    - *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd y defnydd o **gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr** yn cael ei annog a'i wella*

**2.2** Mae'r canlynol yn disgrifio sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn y Blaenoriaethau Gwella hyn.

## Blaenoriaeth Gwella 1: Rheoli tirweddau'r parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth

- *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd* ***amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol*** *y Parc yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo.*

**2.3** Yn CGBI 2014/2015, nodwyd y byddem yn gwybod ein bod wedi gwireddu **'Gwarchod a hyrwyddo amgylchedd y Parc'** ar sail y canlynol:

- Byddwn wedi ymgymryd â mesurau cadwraeth cadarnhaol ar o leiaf 2 Heneb Restredig.
- Byddwn wedi tynnu 6 adeilad oddi ar y gofrestr 'Adeiladau mewn Perygl'.

**2.4** Beth gyflawnwyd gennym mewn gwirionedd?

| Cyfeirnod | Mesur llwyddiant | Targed 2013-14 | Gwirioneddol 2013-14 | Targed 2014-15 | Gwirioneddol 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyflawni mesurau cadwraeth cadarnhaol ar Henebion Rhestredig | amh. | amh. | 2 | 2 |
| 2 | Lleihau nifer yr adeiladau ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl | 8 | 0 | 6 | 23 |

**2.5** Yn 2014/2015, roeddem wedi cyrraedd ein targed ar gyfer ymgymryd â mesurau cadwraeth cadarnhaol ar Henebion Cofrestredig, ac roeddem wedi rhagori ar y targed i leihau nifer yr adeiladau ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl. Mae nifer o adeiladau o bwys sydd mewn perygl wedi bod yn destun ceisiadau i adfer eu defnydd. Roeddem hefyd wedi dechrau adolygiad o adeiladau sydd mewn perygl, a hyd yma, mae hynny wedi arwain at ailddosbarthu nifer fawr ohonynt i'r categori 'monitro' yn hytrach nag 'angen gweithredu'. Caiff adolygiad llawn ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2016.

**2.6** Rydym yn hapus iawn â'n perfformiad yn y Flaenoriaeth Gwella hon.

## Blaenoriaeth Gwella 2: Cadw a gwella bioamrywiaeth

- *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd **Bioamrywiaeth** yn cael ei gwarchod a'i gwella*

**2.7** Yn CBGI 2014/2015, nodwyd y byddem yn gwybod ein bod wedi 'gwarchod a hyrwyddo bioamrywiaeth' gan y byddai natur hirdymor y prosiectau yn y Flaenoriaeth Gwella hon yn galluogi'r canlynol:

- Bydd grŵp llywio wedi'i sefydlu a bydd o leiaf 1 cyfarfod ohono wedi'i gynnal. Mae hyn yn angenrheidiol i gyrraedd ein nod yn y pen draw, sef sicrhau 'Statws Cadwraeth Ffafriol' ar gyfer Llangasty - Caeau Tŷ Mawr (Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd) trwy gyflawni camau gweithredu penodol yn y Cynllun Rheoli drafft, a fydd yn datblygu'n fesurau o dan y flaenoriaeth yn y blynyddoedd i ddyfod.
- Bydd o leiaf 1 cais yn cael ei wneud i'r Cynllun Glastir Uwch. Yn y pen draw, byddwn yn datblygu targedau sy'n seiliedig ar yr ardal o gynefin yr effeithir arni yn y Parc, ynghyd â mesurau sy'n seiliedig ar y modd y cyrhaeddwyd y targed (gan gynnwys y SoDdGA). Bydd llwyddiant yn seiliedig ar weithredu Elfen Tir Comin Glastir.

**2.8** Beth gyflawnwyd gennym mewn gwirionedd?

| Cyfeirnod | Mesur llwyddiant | Targed 2013-14 | Gwirioneddol 2013-14 | Targed 2014-15 | Gwirioneddol 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Sefydlu grŵp llywio rheoli safle ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Llangasty – Caeau Tŷ Mawr | Menter newydd: Grŵp llywio wedi'i sefydlu. Adolygiad o'r Cynllun Rheoli a'r cytundebau lesddaliad wedi'u cwblhau, cerrig milltir ac amcanion wedi'u cytuno a gwaith monitro wedi dechrau. | Grŵp llywio, adolygiad o'r Cynllun Rheoli, lesddaliadau, cerrig milltir ac amcanion wedi'u cwblhau yn 13/14. Monitro wedi dechrau ym mis Mehefin 14. | Drafft gweithiol o Gynllun Rheoli Llangasty – Caeau Tŷ Mawr yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Llywio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol [1] | Cymeradwywyd y Cynllun Rheoli ym mis Ionawr 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Cynorthwyo'r porwyr ym Mynydd Du i wneud ceisiadau i'r cynllun Glastir Uwch | Ceisiadau wedi'u cyflwyno, yn unol â chanllawiau'r Cynllun Glastir Uwch, cyn dyddiad cau mis Rhagfyr 2013 | Pedwar cais wedi dod i law | Hwyluso gweithredu un Cytundeb Gwaith Cyfalaf Glastir mewn partneriaeth ag un o gymdeithasau pori Mynydd Du | Prosiectau Glastir wedi'u gweithredu'n brydlon gan o leiaf un gymdeithas, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru |

[1] Gall adroddiadau dilynol y Cynllun Gwella Busnes ddangos cynnydd o ran y camau gweithredu o fewn y cynllun hwn

**2.9** Yn 2014/2015, cyflawnwyd dau o'r mesurau y cytunwyd arnynt, ac roeddem hefyd wedi cyflwyno cais llwyddiannus i Gronfa Adfer Natur Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen gwella parhaus i adfer rhostir, corsydd mawn a chynefinoedd eraill yn y Mynyddoedd Duon.

**2.10** Rydym yn hapus iawn â'r cynnydd a wnaed gennym yn y maes hwn. Rydym yn parhau i geisio cydweithio â phrifysgolion a sefydliadau ymchwil sy'n fodlon ac yn gallu datblygu rhaglenni ymchwil ac addysgu cymhwysol i'n cynorthwyo ni a chymunedau'r Parc i wynebu pob her sydd o'n blaen. Rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol ar ddatblygu agendâu ymchwil gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## Blaenoriaeth Gwella 3: Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy

- *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd* ***byw'n gynaliadwy, gwydnwch cymdeithasol a balchder cymunedol*** *yn cael eu galluogi*

**2.11** Yn CGBI 2014/2015, nodwyd y byddem yn gwybod ein bod wedi galluogi cymunedau i fyw'n gynaliadwy a chyflawni gwydnwch cymdeithasol a balchder cymunedol ar sail y canlynol:

- Byddwn wedi cyrraedd targed o 26 o fuddiolwyr
- Byddwn wedi cyflawni cymhareb isafswm o 2:1 ar gyfer arian cyfatebol yn erbyn y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
- Byddwn wedi cefnogi 50 o Brosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol trwy roi cyngor ynghylch datblygu a/neu gyllid
- Byddwn wedi datblygu 52 o dargedau a dangosyddion polisi i fod yn sail i ddealltwriaeth fanwl am gymhwyso'r Cynllun Datblygu Lleol
- Byddwn wedi mabwysiadu 1 cynllun pentref

**2.12** Beth gyflawnwyd gennym mewn gwirionedd?

| Cyfeirnod | Mesur llwyddiant | Targed 2013-14 | Gwirioneddol 2013-14 | Targed 2014-15 | Gwirioneddol 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Unigolion sy'n cofrestru, yn ymgymryd â hyfforddiant ac yn cael achrediad | 26 (yn flaenorol 'Nifer y buddiolwyr sydd wedi elwa ar raglenni sgiliau') | 27 | 26 o fuddiolwyr | 31 |
| 6 | Y gymhareb gyllido wirioneddol bob blwyddyn (2) | 2:1 | 2.23:1 | Cymhareb isafswm o 2:1 | 2.91:1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Nifer y Prosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol a gefnogwyd trwy roi cyngor ynghylch datblygu a/neu gyllid | amh. | amh. | 50 o Brosiectau wedi'u cefnogi | 94 |
| 8 | Datblygu targedau a dangosyddion polisi i fod yn sail i ddealltwriaeth fanwl am gymhwyso'r Cynllun Datblygu Lleol | amh. | amh. | 52 o dargedau a dangosyddion polisi | 52 o dargedau a dangosyddion polisi – Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol |
| 9 | Datblygu proses gymeradwy ar gyfer y dulliau o gynhyrchu cynlluniau sy'n seiliedig ar le | Menter newydd – Fframwaith wedi'i ddatblygu a gweithdy wedi'i gynnal | Cyflawnwyd – Fframwaith wedi'i ddatblygu a gweithdy wedi'i gynnal | Mabwysiadu 1 Cynllun Pentref | 0 |

[1] *Gall y gymhareb a gyflawnir gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy mewn unrhyw flwyddyn benodol gael ei chynyddu'n sylweddol os bydd y Gronfa'n cyfrannu at hyd yn oed un prosiect mawr iawn. Ansawdd y prosiect a'i gyfraniad yw'r prif feini prawf dyfarnu.*

**2.13** Roeddem wedi cyflawni ein targedau mewn pedwar o'r pum mesur, a rhagori ar y targedau o fewn tri mesur. Er nad oes cynllun pentref wedi cael ei fabwysiadu, bu cynnydd sylweddol yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Tref y Gelli Gandryll, ac mae ail gynllun pentref hefyd yn symud yn ei flaen.

**2.14** Cynhaliwyd Astudiaeth Craffu o fewn y Flaenoriaeth Gwella hon (Gwydnwch Cymdeithasol) gan banel oedd yn cynnwys Aelodau'r Parc Cenedlaethol, ynghyd â chynrychiolwyr sawl corff allanol. Y cyfeirnod ar gyfer yr astudiaeth yw 02/2014, a gellir gweld yr argymhellion yn Atodiad 2.

**2.15** Rydym yn fodlon iawn ar ein cynnydd yn y maes hwn.

## Blaenoriaeth Gwella 4: Datblygu Economaidd Cynaliadwy

- *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio, bydd y defnydd o* ***gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr*** *yn cael ei annog a'i wella*

**2.16** Yn CGB1 2014/2015, nodwyd y byddem yn gwybod ein bod wedi annog a hyrwyddo'r defnydd o gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr ar sail y canlynol:

- Byddwn wedi hyfforddi 24 o bobl yn y sector preifat ar gludiant cynaliadwy
- Byddwn wedi cynhyrchu a dosbarthu 30,000 o daflenni amserlenni bysiau i ymwelwyr

**2.17** Beth gyflawnwyd gennym mewn gwirionedd?

| Cyfeirnod | Mesur llwyddiant | Targed 2013-14 | Gwirioneddol 2013-14 | Targed 2014-15 | Gwirioneddol 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Nifer y cyrsiau hyfforddi ar gludiant a drefnwyd ar gyfer y sector preifat | 20 | 21 o bobl wedi'u hyfforddi yn y 5 cwrs hyfforddi a drefnwyd | 24 o bobl wedi'u hyfforddi | 52 |
| 11 | Nifer y taflenni amserlenni bysiau a gynhyrchwyd i ymwelwyr | 30,000 | 30,000 | 30,000 | 30,000 |

**2.18** Roeddem wedi cyflawni ein targedau yn y ddau fesur y cytunwyd arnynt, ac wedi rhagori ar y targed ar gyfer faint o bobl sydd wedi'u hyfforddi ar gyrsiau cludiant yn y sector preifat. Cynhaliwyd Astudiaeth Craffu o fewn y Flaenoriaeth Gwella hon (Cludiant Cynaliadwy) gan banel oedd yn cynnwys Aelodau'r Parc Cenedlaethol, ynghyd â chynrychiolwyr sawl corff allanol. Y cyfeirnod ar gyfer yr astudiaeth yw Rhif: 02/2014, ac mae'r argymhellion i'w gweld yn Atodiad 2.

**2.19** Rydym yn hapus iawn â'n cynnydd yn y Flaenoriaeth Gwella hon.

# 3. Casgliad

**3.1** Rydym wedi parhau i wneud cynnydd da ym mhob un o'r 4 Blaenoriaeth Gwella.

**3.2** Ar ôl cael cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, gwelwyd yr Awdurdod yn cymryd camau pellach ymlaen yn 2014-15 o ran datblygu Blaenoriaethau Gwella sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac yn rhoi ffocws ar allbwn; ar yr un pryd, roedd y Blaenoriaethau Gwella yn parhau i gael eu deillio o'r blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

**3.3** Mae'r Cynllun Gwella Busnes yn parhau i ddatblygu, gan gysylltu blaenoriaethau gwella ag amcanion y Cynllun Rheoli ar gyfer 2015-2016.

**Datganiad o Gyfrifoldeb**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella hwn, yr wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo a'r amcangyfrifon y maent yn seiliedig arnynt.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwelliannau yn ei berfformiad a'r mesurau rheoli mewnol y mae'r wybodaeth a'r asesiad yn y Cynllun hwn wedi cael eu cynhyrchu ohonynt.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod cynnwys y Cynllun, ym mhob ffordd berthnasol, yn gywir ac yn gyflawn, yn realistig ac yn gyraeddadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Cynllun Gwella Busnes Rhan 1 2014/2015

**Cynllun Gwella Busnes Rhan 1 (2014-15)**

# Atodiad 2:

## Argymhellion yr Astudiaeth Craffu Cludiant Cynaliadwy 02/2014:


1. Bod yr Awdurdod yn edrych ar y posibilrwydd o greu strategaeth feicio ac yn ymchwilio i ymarferoldeb cronfa grant tuag at hyrwyddo beicio i breswylwyr yn y Parc Cenedlaethol, yn hytrach na beicio oddi ar y ffordd.
2. Bod rheolwyr, pan fyddant yn cynnal Adolygiadau Rheoli Perfformiad, yn ystyried rhoi cyfle i'r staff brofi cludiant cyhoeddus ledled y Parc Cenedlaethol.
3. Bod y Swyddog Trafnidiaeth Ymwelwyr yn cydlynu â'r Canolfannau Croeso wrth hyrwyddo mentrau cludiant cyhoeddus a gwelliannau i'r drefn o ddosbarthu taflenni.


## Argymhellion yr Astudiaeth Craffu Gwydnwch Cymdeithasol 02/2014:

1. Bod swyddogion, yn niffyg Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn sicrhau bod ganddynt ddata perthnasol i ddangos bod amcan yn cael ei gyflawni.
2. Bod yr Awdurdod yn ymgorffori'r prosesau canlynol yn ei waith o gefnogi gwydnwch cymdeithasol yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol:
    a. Adeiladu sylfaen perthynas trwy lefarwyr allweddol sydd eisoes â pherthynas dda â Chynllunio, ac sy'n cael eu cydnabod a'u parchu'n dda gan awdurdodau a phreswylwyr lleol;
    b. Adnabod a deall y diffygion a'r sbardunau allweddol sy'n ysgogi preswylwyr, cynghorau tref a chymuned ac awdurdodau lleol i deimlo'n ddigyswllt, a gosod cynllun i fynd i'r afael â'r datgysylltiadau hyn;
    c. Adeiladu awyrgylch o barch tuag at farn a phresenoldeb awdurdodau a phreswylwyr lleol trwy strategaeth gyfathrebu fwy effeithiol;
    d. Adeiladu ar ein polisi 'drws agored' gweithredol i gynyddu cynhwysedd trwy 'wahodd dinasyddion i roi adborth neu i wneud sylwadau' ar ein gwaith lle bo modd. Mae angen i'n preswylwyr, ein cynghorau tref a chymuned, a'n hawdurdodau lleol gredu bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu clywed, a'u bod yn rhan allweddol o broses benderfynu'r Awdurdod.
3. Bod yr Awdurdod yn edrych ar sut y gall weithredu'r canlynol:
    a. Annog swyddogion ar hyd a lled Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddarparu mwy o wybodaeth i'r tîm Cyfathrebu i'w defnyddio fel postiadau – gyda llun, yn fwyaf delfrydol ac effeithiol;
    b. Parhau i gynnig cyfle i grwpiau cymunedol leisio'u pryderon yn uniongyrchol i uwch-swyddogion;

   c. Adnewyddu astudiaethau achos ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar dudalennau gwefan yr Awdurdod;
   d. Archwilio'r dull mwyaf priodol o roi gwybodaeth am waith cadarnhaol yr Awdurdod gerbron aelodau Llywodraeth Cymru – o bosibl trwy newyddlen reolaidd.
4. Bod cyllideb y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei diogelu wrth i'r Gronfa barhau i gael ei chydnabod fel mecanwaith sylfaenol ar gyfer buddsoddi yn ein cymunedau:
   a. Dylid cynnal adolygiad o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i sicrhau bod prosiectau sy'n cyfrannu at wydnwch cymdeithasol yn derbyn mwy o flaenoriaethau i'n helpu i gyflawni ein dibenion a'n dyletswyddau o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa;
   b. Dylid ymchwilio i'r posibiliadau o ddefnyddio/addasu model benthyg (model Powys neu fodel arall sy'n berthnasol i alluogi mentrau cynaliadwyedd dan arweiniad cymunedau).
5. Bod astudiaeth yn cael ei chynnal, pan fydd amser ac adnoddau'n caniatáu, i edrych ar y gydberthynas rhwng ymatebion i ymgyngoriadau ac ymgysylltu dilynol yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r prosesau cynllunio.
6. Bod gwaith y Rhaglen Cynghreiriau Gwledig a datblygiad y prosiect LAND yn ystyried y gwaith a wneir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ei Adroddiad Craffu 35 ar Wydnwch Cymdeithasol fel rhan o'r prosiect Cronfa Natur i ddatblygu partneriaethau a grwpiau'r dyfodol.
7. Bod gwerth secondio swyddogion i sefydliadau cymunedol allweddol yn cael ei gydnabod a'i gynnal fel mecanwaith i gyflwyno gwasanaethau.
8. Bod yr Adran Gynllunio yn edrych ar sut y gallai ddarparu set o ganllawiau cynllunio syml sydd wedi'u targedu'n benodol ar gyfer y gymuned ffermio, ac sy'n cynnwys yr hyn yw, a'r hyn nad yw, yn ddatblygiad a ganiateir.
9. Bod yr Awdurdod yn parhau i gydlynu ei berthnasoedd â Chynghorau Tref a Chymuned ac yn adeiladu arnynt er mwyn cydweithio o fewn cylchoedd gwaith perthnasol i gefnogi cymunedau lleol.
10. Bod yr Awdurdod yn cydweithio â'r Cynghorau Tref a Chymuned, gan gynnwys i ddatblygu'r Cynlluniau Pentref, er mwyn cefnogi eu gwaith ar wydnwch cymdeithasol, ac yn ystod y broses o drosglwyddo gwasanaethau'r sector cyhoeddus.

# Atodiad 3: Crynodeb Ariannol 2014-2015



# Atodiad 4: Dangosyddion Perfformiad Statudol 2014-2015

| Rhif | Data | APCE Canlyniadau 2014/15 | ACPBB Canlyniadau 2014/15 | ACPASB Canlyniadau 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| PLA/ 002 | Canran y ceisiadau am ddatblygu a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn. | 90% | 90% | 95% |
| PLA/ 003 | a) Nifer yr apeliadau y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y flwyddyn, mewn perthynas â'r canlynol: | | | |
| | i) Penderfyniadau am geisiadau cynllunio | 13 | 9 | 14 |
| | ii) Hysbysiadau gorfodi | 1 | 2 | 0 |
| | b) Canran yr apeliadau y gwnaed penderfyniad yn eu cylch a gefnogai benderfyniad yr awdurdod mewn perthynas â'r canlynol: | | | |
| | i) Penderfyniadau am geisiadau cynllunio | 77% | 44% | 79% |
| | ii) Hysbysiadau gorfodi | 100% | 100% | 100% |
| PLA/ 004 | a) Canran y ceisiadau cynllunio mawr y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y flwyddyn o fewn 13 wythnos | 50% | *80% | 22% |
| | b) Canran y ceisiadau cynllunio bach y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos | 70% | 87% | 78% |
| | c) Canran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos | 87% | 93% | 93% |
| | d) Canran yr holl geisiadau cynllunio eraill y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y flwyddyn o fewn 8 wythnos. | 70% | 90% | 87% |
| PLA/ 005 | Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys yn ystod y flwyddyn o fewn 12 wythnos i'w derbyn. | 64% | **85% | 68% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PLA/ 006 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, fel canran o'r holl unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 51% | 16% | 60% |
| PLA/ 007 | Nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol, fel canran o'r holl unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 59% | ***1% | Ddim ar gael hyd yma |
| CHR/ 001 | Canran y gweithwyr sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod, yn wirfoddol neu'n anwirfoddol. | 13.1% | 16.46% | 13.6% |
| CHR/ 002 | Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd gan weithwyr yr awdurdod oherwydd absenoldeb salwch. | 9.3 diwrnod | 13.72 diwrnod | 8.1 diwrnod |
| CFH/ 006 | Canran yr anfonebau diamheuol a dalwyd o fewn 30 diwrnod i'r awdurdod dderbyn anfonebau o'r fath. | 96% | 96.02% | 97.6% |
| CAM/ 001 | a) % ardal fewnol gros adeiladau'r awdurdod yng nghategorïau cyflwr: i) A ii) B iii) C iv) D<br>b) % cyfanswm gwerth y gwaith cynnal a chadw ar adeiladau'r awdurdod wedi'i neilltuo i waith ar lefel blaenoriaeth: i) 1 ii) 2 iii) 3 | A: 42.5%<br>B: 46.5%<br>C: 11%<br>D: 0%<br>1: 11%<br>2: 78.8%<br>3: 10.2% | 2.5%<br>95.6%<br>1.8%<br>0%****<br>Data heb eu casglu ar gyfer y dangosydd hwn | Heb ei gasglu |
| CHR/ 004 | Canran gweithwyr yr awdurdod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. | 0% | 1.6% | 0% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| CHR/ 005 | Canran gweithwyr yr awdurdod sy'n datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. | 0.1% | 8.5% | n/a |

* Mae Datganiad Statudol LIC yn gofyn am ganran y ceisiadau cynllunio mawr y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch yn ystod y flwyddyn o fewn llai nag 16 wythnos
** Mae Datganiad Statudol LIC yn gofyn am ganran yr achosion gorfodi a gafodd eu datrys yn ystod y flwyddyn o fewn 180 o ddiwrnodau neu lai
*** Nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ar dir a oedd wedi'i ddatblygu'n flaenorol, fel canran o'r holl unedau tai newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – mae'r ffigur hwn ar gyfer 2014 yn unig am nad yw'r ffigurau ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth 2015 ar gael.
**** Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar yr adroddiad a luniwyd gan Bruton Knowles yn 2013 (ni allwn fforddio cynnal yr arolygon cyflwr bob blwyddyn). Mae'r ffigurau yn eithrio'r Pencadlys, sy'n cael ei brydlesu. Noder: ar gyfer CAM 001/b, byddai'n rhaid inni ailgynnal yr arolwg i ofyn am ddata yn y fformat hwn.

# Atodiad 5: Dangosyddion Perfformiad Cymharol Parciau Cenedlaethol Cymru 2014-2015

| Rhif | Data | APCE Canlyniadau 2014/15 | ACPBB Canlyniadau 2014/15 | ACPASB Canlyniadau 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| LPI3 | Nifer y cwynion i'r Ombwdsmon a ddosbarthwyd fel camweinyddu. | 0 | 0 | 0 |
| CL4 | Nifer y cwynion a dderbyniwyd ac a gofnodwyd yn ganolog | 15 | 25 | 12 |
| CL5 | Nifer y sesiynau hyfforddi a gynigiwyd i aelodau unigol. | 9.32 diwrnod | 4.89 | Heb ei gyfrif |
| CL6 | Presenoldeb cyfartalog yr aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi | 49.3% | 75% | 71% |
| CL7 | Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi fesul aelod o staff | 2.2 ddiwrnod | 3.4 diwrnod | Heb ei gyfrif |
| LPI2 | Nifer yr adeiladau rhestredig mewn perygl a achubwyd gan gamau gweithredu APC yn ystod y flwyddyn, fel % o gyfanswm yr adeiladau rhestredig mewn perygl yn y Parc Cenedlaethol | 2.66% | 20% | 5% |
| LPI1 | % y ceisiadau cynllunio y gwnaed penderfyniadau yn eu cylch o fewn 8 wythnos | 74% | 90% | 85% |

# Atodiad 6: Geirfa o dermau

| | |
|---|---|
| APCBB | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| CGB | Cynllun Gwella Busnes |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| APC | Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| CRhPC | Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyfuniad o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) |
| YG | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| APCASB | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro |
| HT | Hawl Tramwy |
| HR | Heneb Restredig |
| CDC | Cronfa Datblygu Cynaliadwy |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| APCE | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| LlC | Llywodraeth Cymru |